



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Adroddiad Terfynol



Cynnwys

1. Rhagair
2. Cyflwyniad
3. Ymgysylltu – Yr hyn a ddywedoch chi wrthym
4. Cyngorau Cymuned a Thref – Beth ydynt
5. Cyngorau Cymuned a Thref – Beth y maent yn ei wneud
6. Cyngorau Cymuned a Thref – Sut y maent yn ei wneud
7. Cyngorau Cymuned a Thref – Sut y cânt eu dwyn i gyfrif
8. Crynodeb o'r Argymhellion
9. Cyfeiriadau

Atodiad A – Astudiaethau Achos

Atodiad B – Adroddiad Ymgysylltu

Rhagair

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Fis Mehefin y llynedd, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Mark Drakeford AC, inni fod yn rhan o adolygiad annibynnol o rôl Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y dyfodol ac arwain yr adolygiad hwnnw. Mae'n bleser gennym gyflwyno ein hadroddiad a'n hargymhellion terfynol i chi.



Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn teimlo ein bod wedi cynnal adolygiad sy'n wirioneddol seiliedig ar dystiolaeth, gyda thros fil o gysylltiadau â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys dros 800 o ymatebion i'n harolygon pwrpasol, a 100 o'r rheini gan bobl ifanc.

Rydym wedi clywed amrywiaeth o safbwyntiau o bob rhan o Gymru. Mewn rhai achosion, cafwyd consensws cyffredinol ynghylch rhai pynciau trafod. Er enghraifft, roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno mai rôl allweddol Cyngorau Cymuned a Thref yw eu bod yn atebol yn ddemocrataidd ac yn gweithredu ar lefel leol iawn. Yn ôl y disgwyl, roedd cryn wahaniaeth barn ar rai pynciau. Er enghraifft, roedd barn gref o blaid ac yn erbyn cyngorwyr sy'n gwasanaethu ar fwy nag un cyngor, a ddylai hyfforddiant i gynghorwyr fod yn orfodol, a rôl gwleidyddiaeth plaid mewn Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned.

Mae ein canfyddiadau a'n hargymhellion wedi cael eu llywio gan y safbwyntiau hyn ac, mewn rhai achosion, maent yn ymddangos yn radical. Er y gallwn ddysgu o'r gorffennol a dim ond ymdrin â'r presennol, gwyddom fod gennym rôl i baratoi Cyngorau Cymuned a Thref ar gyfer y dyfodol. Os ydym am lwyddo i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol, rydym ni o'r farn bod gan Gyngorau Cymuned a Thref rôl hollbwysig o ran cyfrannu tuag at hyn – ac y dylid cydnabod hynny.

Rydym yn ddiolchgar i aelodau'n Panel am y modd cydwybodol ac adeiladol yr aethant ati i gyflawni eu cyfrifoldebau. Hoffem hefyd gydnabod y cymorth ardderchog a gawsom gan dîm yr ysgrifenyddiaeth yn Llywodraeth Cymru, sef Claire Germain, Laurie Davies a Lisa Aspinall. Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'r sector, i rhanddeiliaid allweddol ac i'r cyhoedd am gymryd rhan yn yr Adolygiad ac am yr ymatebion adeiladol iddo. Heb y cymorth a'r gefnogaeth a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym yn credu y byddem wedi gallu dod i'r casgliadau seiliedig-ar-dystiolaeth y daethom iddynt.

Yn gywir

Gwenda Thomas
Cyd-Gadeirydd

Rhodri Glyn Thomas
Cyd-Gadeirydd

Cyflwyniad: Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Cyngorau Cymuned a Thref sydd ar lawr gwlad o ran llywodraethu lleol yng Nghymru. Mae dros 730 o Gyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru, ond nid oes un gan bob cymuned yng Nghymru.

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn atebol i bobl leol ac mae dyletswydd arnynt i gynrychioli buddiannau'r gwahanol rannau o'r gymuned i'r un graddau â'i gilydd. Mae rhai'n cynrychioli poblogaethau o lai na 200 o bobl, mae eraill yn cynrychioli poblogaethau o fwy na 45,000.

Comisiynu Adolygiad Annibynnol

Sefydlwyd y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Gorffennaf 2017 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Mark Drakeford AC.

Cawsom ein sefydlu i wneud y canlynol:

- ymchwilio i rôl bosibl llywodraeth leol ar lefel islaw cyngorau Awdurdod Lleol, gan edrych ar arferion da
- diffinio'r model(au)/strwythur(au) mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r rôl hon
- ystyried sut y dylid rhoi'r modelau a'r strwythurau hyn ar waith ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn angenrheidiol nac yn briodol.

Rhoddwyd cylch gwaith inni a oedd yn fwriadol yn eang, gyda'r cyfle i fod yn radical os oedd angen.

Cefnogir yr adolygiad yn gryf gan yr Ysgrifennydd Cabinet presennol, Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe gadarnhaodd ef fod cyfle i fod yn radical o ran dod o hyd i'r datrysiad gorau a chywir i Gymru.

Cawsom ein penodi mewn modd a oedd yn sicrhau cydbwysedd gwleidyddol ar draws y pedair prif blaid yng Nghymru, a phenodwyd dau unigolyn ar sail eu harbenigedd a'u profiad o gymunedau cymuned a thref, neu gynrychiolaeth neu weithgarwch cymunedol ehangach. Cawsant eu penodi drwy broses o fynegi diddordeb. Mae gan bob un ohonom ein profiadau personol ein hunain o Gyngorau Cymuned a Thref hefyd, boed hynny drwy fod yn gynghorydd neu'n glerc neu drwy fynychu Cyngorau Cymuned a Thref a gweithio gyda hwy.


Pwy ydym ni



Gwenda Thomas (Cyd-Gadeirydd) – yn
cynrychioli Plaid Lafur Cymru



Rhodri Glyn Thomas (Cyd-Gadeirydd) –
yn cynrychioli Plaid Cymru



William Graham
– yn cynrychioli
Plaid Geidwadol
Cymru



Y Cynghorydd
Kathryn Silk – yn
cynrychioli
Democratiaid
Rhyddfrydol
Cymru



Jessica Morgan –
yn cynrychioli
Datblygu
Cymunedol gan
weithio gyda
Rhwydwaith
Gweithredu Lleol
Sir Benfro ar gyfer
Menter a Datblygu



Edward Humphreys
– Clerc Cyngor Tref
y Drenewydd a
Llanllwchaearn, a
Chlerc Cyngor
Cymuned yr Ystog

Gwaith y Panel

Rhwng mis Medi 2017 a mis Chwefror 2018 buom yn cwrdd yn fisol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, buom yn archwilio rôl allweddol Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o'r sector a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Cawsom dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan randdeiliaid allweddol yn y sector, yn ogystal â chan Gynghorau Cymuned a Thref eu hunain. Yn ystod cyfnodau olaf y cyfarfodydd hyn, aethom ati mewn modd thematig / wedi'i dargedu i archwilio nodweddion allweddol Cyngor Cymuned a Thref ac fe ddefnyddion ni'r cyfarfodydd i lunio ein syniadau cynnar. Ategwyd hyn gan y broses o gasglu dystiolaeth drwy ein cyfres o weithgareddau ymgysylltu (a nodir yn y bennod isod).

O fis Chwefror 2018 ymlaen, fe ganolbwyntion ni ein hymdrechion ar waith ymgysylltu a chasglu dystiolaeth wedi'i dargedu, gan roi ffocws ar y meysydd yr oeddem yn gwybod bod angen rhagor o wybodaeth amdanynt. Fe barhaom ni i lunio a phrofi ein syniadau cynnar yn ogystal â defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennym i ddatblygu canfyddiadau amlinellol a llunio argymhellion. Cafodd yr argymhellion a oedd yn dod i'r amlwg eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 17 Gorffennaf 2018.

Wrth inni symud ymlaen drwy'r adolygiad, roedd ein canfyddiadau a'r argymhellion a oedd yn dod i'r amlwg yn perthyn yn naturiol i bedair thema:

- **Beth yw Cyngorau Cymuned a Thref:** gan gynnwys mynd i'r afael â'r cwestiynau mawr megis a ddylai Cyngorau Cymuned a Thref fodoli, eu cwmpas a'r mathau o Gynghorau Cymuned a Thref.
- **Beth mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud:** gan ystyried agweddau ar y rôl megis Cyflawni'n Lleol, Pwerau a Hyblygrwydd, Llais Lleol a Hunaniaeth Leol, ac Ymgysylltu â'r Gymuned.
- **Sut mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud:** gan archwilio Capasiti a Gallu, Staffio, Cyllid, Cyngor Arbenigol, Rôl Cyngorydd a'r Berthynas sydd gan Gynghorau Cymuned a Thref â chyrff eraill.
- **Sut caiff Cyngorau Cymuned a Thref ei dwyn i gyfrif:** gan ystyried Atebolrwydd Democrataidd, Amrywiaeth, Archwilio, Craffu Annibynnol a Chymorth / Ymyrraeth.

Dylid ystyried ein canfyddiadau a'n hargymhellion fel pecyn. Rydym yn credu bod angen i'r holl bethau hyn ddigwydd yr un pryd i gael y canlyniad a fwriedir. Mae ein pwyslais wedi bod ar sut y gallwn roi anogaeth ar gyfer newid a'i alluogi o'r tu mewn, yn hytrach na chyfarwyddo a gorfodi.



Ymgysylltu: Yr hyn a ddywedoch chi wrthym

I ategu ein gwaith, fe gynhalion ni gyfres o weithgareddau ymgysylltu i geisio tystiolaeth a chasglu barn gan Gynghorau Cymuned a Thref, rhanddeiliaid allweddol a chymunedau eu hunain.

Sut y gwnaethom ymgysylltu

Fe dargedon ni ein gwaith ymgysylltu mewn pedwar grŵp:

- gyda Chynghorau Cymuned a Thref a rhanddeiliaid allweddol
- gydag Awdurdodau Lleol
- gydag aelodau o'r gymuned
- gyda phlant a phobl ifanc.

Ym mis Hydref 2017, i roi hwb cychwynnol i'n hymgyrch ymgysylltu, fe gyhoeddwyd galwad ffurfiol am dystiolaeth ar gyfer yr holl Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Anfonwyd hon at yr holl randdeiliaid a chanddynt fuddiant yn y sector hefyd. Ceir rhestr lawn o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad yn ein Hadroddiad Ymgysylltu llawn (yn Atodiad B).

Er mwyn rhoi gwybodaeth gyson i Gynghorau Cymuned a Thref am ein cynnydd, fe ddatblygon ni Gylchlythyr yr Adolygiad a oedd yn cael ei gyhoeddi bob deufis. Cafodd ein galwad am dystiolaeth ei hategu gan bedwar arolwg ar-lein, a'r rheini wedi'u targedu at y grwpiau ymgysylltu a nodwyd ac fe ddatblygwyd cwestiynau pwrpasol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolygon ar-lein drwy wefan Llywodraeth Cymru a chawsant eu rhannu gan randdeiliaid hefyd.

Er mwyn sicrhau bod pawb wedi cael y cyfle i rannu eu barn, fe ddatblygon ni gyfres o weithgareddau ymgysylltu. Fel aelodau o'r Panel, fe gymeron ni gyfrifoldeb hefyd am ymweld â Chynghorau Cymuned a Thref, gyda'n gilydd ac ar wahân, i'w hannog i ymgysylltu â'r adolygiad ac i glywed barn cynghorau unigol ynglŷn â dyfodol y sector.


Roedd ein digwyddiadau mawr yn agored i bawb gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, ond rhanddeiliaid o'r sector ei hun oedd y mwyafrif a ddaeth iddynt. Roedd pedwar digwyddiad yn yr arfaeth ar gyfer mis Mawrth 2018, ond fel pawb arall ledled Cymru, nid oeddem yn gallu rheoli'r tywydd! Methwyd bwrw ymlaen â'r digwyddiad yr oeddem wedi bwriadu ei gynnal yn Nolfor, y Drenewydd, ddechrau mis Mawrth oherwydd yr eira...ac eto ganol mis Mawrth. Fe benderfynon ni beidio ag aildrefnu'r digwyddiad, ond fe wnaethom yn siŵr bod y rhai a oedd wedi bwriadu bod yn bresennol yn nigwyddiad y Canolbarth yn cael y cyfle i rannu eu barn drwy ddulliau eraill.

Yn ogystal â'n digwyddiadau mwy, fe gynhalion ni ddwy sesiwn galw heibio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref hefyd, y naill ym Merthyr Tudful ym mis Chwefror 2018 a'r llall yn Aberystwyth ym mis Ebrill 2018. Roedd y sesiynau ychwanegol hyn yn fodd arall i randdeiliaid rannu eu barn ac yn gyfle i ystyried yr un cwestiynau ag a ofynnwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu mwy.

Ym mis Ebrill, fe gynhaliwyd pedwar digwyddiad ledled Cymru hefyd, a oedd wedi'u targedu'n benodol at gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu casglu.

Yn olaf, i wneud yn siŵr bod yr holl gymunedau ac aelodau'r cyhoedd yn cael y cyfle i rannu eu barn, fe alwon ni ar Gyngorau Cymuned a Thref a rhanddeiliaid partner i gynnal sesiynau 'galw heibio' ledled Cymru.

I gael yr effaith fwyaf, lle'r oedd yn bosibl, fe ofynnwn ni i bobl gynnal eu digwyddiad ar yr un dyddiad (24 Mai 2018). Dewisodd llond llaw o gyngorau gyfuno eu sesiwn 'galw heibio' â digwyddiadau a oedd wedi'u trefnu'n flaenorol ym mis Mai yn eu cymuned. Lle nad oedd rhanddeiliaid yn gallu cynnal sesiwn eu hunain, gofynnwyd iddynt hysbysebu sesiwn yn agos atynt. Cafodd y rhai a oedd yn cynnal digwyddiad yr adnoddau yr oedd eu hangen arnynt i roi cyhoeddusrwydd i'w digwyddiad a chasglu adborth. Roedd ffurflenni adborth yn cynnwys cwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnwyd fel rhan o arolwg y cyhoedd.



Cynhaliodd Un Llais Cymru ei ddigwyddiadau ymgysylltu ei hun hefyd gyda'i aelodau o'r sector, gan gyflwyno ymateb sylweddol, a groesawyd gennym.

Mae'r map hwn (eitem 1) yn dangos y lleoedd yr ymwelon ni â hwy fel Panel (boed yn unigol fel aelodau'r Panel neu fel rhan o ddigwyddiad ymgysylltu wedi'i drefnu) a lleoliadau'r holl sesiynau 'galw heibio' dan arweiniad rhanddeiliaid.

Cawsom gyfanswm o dros fil o bwyntiau cyswllt gydag unigolion fel rhan o waith ymgysylltu'r adolygiad. Daeth dros 190 o unigolion i'n digwyddiadau ymgysylltu a chafwyd 600 barn fel rhan o'r adborth o'r sesiynau 'galw heibio'. Mae'r map isod (eitem 2) yn dangos ble y cafwyd ymatebion dros Gymru benbaladr, gan yr ymatebwyr hynny a ddywedodd wrthym o ble'r oeddent yn dod.

Mewn ymateb i'n harolygon, yn rhai ar-lein ac yn rhai a gyflwynwyd i flwch negeseuon e-bost yr adolygiad neu i'n hysgrifenyddiaeth, cawsom gyfanswm o 801 o ymatebion. Gellir dadansoddi'r rhain fel a ganlyn:

- Arolwg Cyffredinol (ymatebion yn seiliedig ar y sector yn bennaf) – 227
- Arolwg y Cyhoedd – 453
- Arolwg Ieuencid – 104
- Arolwg Awdurdodau Lleol – 17

Cawsom 27 eitem ysgrifenedig o dystiolaeth hefyd. Er bod hyn i'w weld yn gymharol isel, roedd hyn yn bennaf yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn ein cyfarfodydd. Lle'r oedd yn briodol, cafodd ymatebion gan randdeiliaid eraill eu hymngorffori fel rhan o'r ymatebion i'r arolygon.

Yr hyn a glywsom

Cawsom gyfoeth o dystiolaeth gan lawer o unigolion. Diolch i bawb a lenwodd arolwg, a ddaeth i ddigwyddiad, neu a anfonodd eich meddyliau atom. Gyda'r ymatebion hyn, rydym yn credu ein bod wedi cwblhau adolygiad sy'n wirioneddol seiliedig ar dystiolaeth.


Er bod yr ymatebion i rai pynciau yn dangos gwahaniaeth barn, roedd consensws cyffredinol ynghylch y mwyafrif o faterion.

Roedd nifer o ymatebion yn nodi y **OGL** dylai Cyngorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol am faterion neu wasanaethau yn y gymuned leol. Dywedwyd hefyd mai eu rôl allweddol yw bod yn atebol yn ddemocrataidd a chynrychioli'r farn leol.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod rhwystrau sy'n atal Cyngorau Cymuned a Thref rhag gwneud eu gorau dros y gymuned gan gynnwys Cyllid, Capasiti a Gallu. Roedd nifer o ymatebion yn nodi diffyg ymwybyddiaeth am rôl Cyngor Cymuned a Thref a diffyg ymgysylltu gan rai cyngorau â'u cymuned.

Roedd barn gref o blaid ac yn erbyn aelodau deuol (sef Cynghorwyr sy'n aelodau o fwy nag un math o gyngor) a rôl gwleidyddiaeth plaid mewn Cyngor Cymuned a Thref. Byddwn yn archwilio'r themâu hyn drwy'r adroddiad.

Ceir dadansoddiad manylach o'r ymatebion a gafwyd yn ein Hadroddiad Ymgysylltu.





Thema 1: Cyngorau Cymuned a Thref – Beth ydynt

Argymhelliad Allweddol:


Gwnaethpwyd yr achos o blaid cadw Cyngorau Cymuned a Thref ar y sail eu bod yn lleol iawn, yn atebol yn ddemocrataidd ac yn gallu codi **adnoddau**. Dylai pob ardal gael ei chefnogi gan Gyngor Cymuned a Thref a dylid sefydlu rhai ym mhob ardal sydd heb un ar hyn o bryd.

Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet gylch gwaith unigryw inni a oedd yn eang a heriol, a hwnnw'n cael ei ategu gan y syniad o fod yn radical. Fe ddechreuon ni â'r cwestiynau mawr, 'A ddylai Cyngorau Cymuned a Thref fodoli?' ac os felly, ar ba ffurf. Fe archwilion ni fodolau gwahanol ar gyfer Llywodraeth Leol o bob rhan o'r byd gan gynnwys. Ffraincⁱ, Yr Almaenⁱⁱ, Yr Iseldiroeddⁱⁱⁱ, UDA^{iv} a Denmarc^v. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae Llywodraethu Lleol yn amrywio ledled y DU^{vi}. Mae ein hastudiaeth achos (yn Atodiad A) yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y modelau hyn a'r model presennol yng Nghymru.

Trowch at yr Atodiad i weld sut mae'r modelau hyn yn cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru, ac i ddarllen ein hastudiaethau achos eraill.

Drwy ein galwad am dystiolaeth, derbyniwyd llawer o ymatebion ynglŷn â'r thema hon. Roedd bwlch amlwg rhwng y rhai a oedd o blaid cadw Cyngorau Cymuned a Thref a'r rhai a oedd yn credu y dylid eu diddymu. Er enghraifft, roedd sylwadau a oedd yn nodi diffygion yn y system bresennol, 'eu bod yn hen ffasiwn', 'nad ydynt i gyd yn addas i'w diben'. Nododd ymatebwyr hefyd fod 'cymdeithas yn newid' ac y dylai Cyngorau Cymuned a Thref weithredu 'yn gyson neu ddim o gwbl'. Barn leiafrifol iawn oedd hon (12 ymateb allan o 453 o ymatebion i'r arolwg cyhoeddus). Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion yn trafod sut y gellid gwella'r sector gan nodi manteision Cyngorau Cymuned a Thref, gan gynnwys bod yn llais ar ran y gymuned y maent yn ei chynrychioli.

Rydym yn credu bod yr achos wedi'i wneud o blaid cadw Cyngorau Cymuned a Thref ar y sail eu bod yn gallu:




Nodweddion allweddol Cyngor Cymuned a Thref, nad yw modelau eraill ar gyfer llywodraethu cymunedol yn eu darparu, yw eu bod yn gweithredu ar **lefel leol iawn**, eu bod **yn atebol yn ddemocrataidd** a'u bod yn **gallu codi adnoddau**. Maent mewn safle unigryw i fod yn ganolbwynt gweithredu democrataidd lleol a chael yr adnoddau i arwain, newid a dylanwadu.

Er ein bod yn teimlo bod diffygion yn y system bresennol, byddai disodli'r model yn ei gyfanrwydd yn anodd. Nid oes un ateb arall a fyddai'n gweddu i bob ardal ledled Cymru. Nid yw hyn yn golygu y dylai Cyngorau Cymuned a Thref barhau fel y maent. Rydym yn credu bod cyfle i fod yn radical o ran sut y bydd cyngorau'n gweithredu yn y dyfodol.

Dylai pob ardal gael ei chefnogi gan Gyngor Cymuned a Thref. Oni bai bod un ar gyfer pob ardal, rydym yn credu y bydd meysydd lle nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu, os yw'r rôl yr ydym ni'n ei rhagweld ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yn mynd i gael ei gwireddu. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cymunedau lleol yn ymwybodol o fanteision bod â Chyngor Cymuned a Thref. Gwyddom fod heriau mewn Cyngorau Cymuned a Thref ar hyn o bryd o ran denu nifer priodol o unigolion i sefyll mewn etholiad, felly mae angen gwneud mwy y tu hwnt i sefydlu Cyngorau Cymuned a Thref ym mhob ardal ledled Cymru.

Gyda thros 730 o Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru, mae'n anodd dychmygu bod cymunedau heb gyngor. Ond gwyddom fod oddeutu 110 o gymunedau neu 30% o boblogaeth y wlad heb gyngor. Dim ond 12 ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n cael eu gwasanaethu'n llawn gan Gyngorau Cymuned a Thref (gweler eitem 3).

Rydym wedi profi anawsterau o ran cael tystiolaeth fanwl o'r ardaloedd hynny nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n llawn. Yn yr ardaloedd hyn, gwyddom fod sefydliadau cymunedol eraill yn cyflawni rôl debyg – er enghraifft ym Merthyr Tudful. Clywsom dystiolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a gadarnhaodd fod eu gallu i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i'r heriau a gyflwynir gan gyni cyllidol wedi bod yn amlwg yn wannach mewn ardaloedd lle nad oes Cyngorau Cymuned a Thref yn bodoli yn y Fwrdeistref.^{vii}



Mae Awdurdodau Lleol wedi dweud wrthym hefyd ei bod yn aml yn anodd ystyried trosglwyddo gwasanaethau pan nad oes Cynghorau Cymuned a Thref yn gwasanaethu'r awdurdod cyfan. Gallai'r diffyg hwn achosi anghysondeb a mwy o ddryswch i'r cyhoedd.

Rydym ni o'r farn bod bodolaeth Cynghorau Cymuned a Thref i wasanaethu pob ardal yn bwysig ac yn ddewisach ac mai dyma sylfaen argymhellion eraill . **Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i annog, hyrwyddo a chynorthwyo cymunedau lleol sydd heb Gyngor Cymuned neu Dref ar hyn o bryd i'w sefydlu.**

Mae angen i ffiniau Cyngor Cymuned a Thref fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben er mwyn gwasanaethu'r gymuned leol yn gywir. Un o gryfderau Cynghorau Cymuned a Thref yw eu bod yn lleol a bod ganddynt ymdeimlad naturiol o gymuned. Dydyn ni ddim yn credu mai ein lle ni fel Panel yw tynnu llinellau ar fap, na chynnig gostyngiad mympwyol mewn niferoedd. Fodd bynnag, nid yw rhai o ffiniau presennol Cynghorau Cymuned a Thref yn addas mwyach i wasanaethu eu cymunedau lleol yn y ffordd orau, er enghraifft drwy adlewyrchu datblygiadau tai diweddar.

Nid ydym yn credu ychwaith y bydd rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn gynaliadwy nac yn gallu cyflawni'r rôl yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer os byddant yn aros fel y maent. Bydd angen i lawer o Gynghorau Cymuned a Thref gydweithio i gyflawni'r rôl a ragwelir iddynt mewn canfyddiadau diweddarach. Efallai y bydd rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn dewis uno i gyflawni'r rôl honno.

Fe geision ni ac fe gawsom dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac fe roesom ystyriaeth i'r *Canllawiau i Brif Gynghorau ar Adolygu Cymunedau*^{viii}. O dystiolaeth y Comisiwn Ffiniau, gwyddom fod Awdurdodau Lleol wedi cynnal adolygiadau cymunedol i raddau amrywiol. Rydym yn deall bod pob un heblaw am bump o'r 22 Awdurdod Lleol wedi cynnal adolygiadau yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf. O'r pump sy'n weddill, nid yw un wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r cymunedau yn ei ardal ers 1996^{ix}.

Rydym yn credu y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau Cynghorau Cymuned a Thref yn ddiymdroi i sicrhau bod ardaloedd cymunedol yn gweddu i anghenion eu cymuned yn awr ac yn y dyfodol a'r rôl a ragwelir ar eu cyfer sy'n codi o ganfyddiadau diweddarach. **Wedyn dylid adolygu ardaloedd cymunedol yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn dal i wneud synnwyr wrth i ardaloedd (ac anghenion) newid a datblygu.**

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, nid dim ond o ran eu swyddogaeth ond o ran eu capasiti a'u gallu hefyd. Ceir Cynghorau Cymuned a Thref o wahanol faint, a'r rheini'n amrywio o'r Cynghorau Cymuned 'micro' bach iawn i Gynghorau Tref mawr iawn.

Maent yn gweithredu'n wahanol hefyd, er enghraifft o ran ffurfioldeb trefniadau llywodraethu. Mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae rhai'n canolbwyntio'n gyfangwbl ar gynrychioli eu cymuned. Mae i bob un ei werth.

Cafwyd dwy ymgais yn barod i wahaniaethau rhwng y Cyngorau Cymuned a Thref presennol. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi pennu set o grwpiau o Gyngorau Cymuned a Thref ar gyfer tâl gorfodol i gynghorwyr ^x. Ar ben hynny, wrth awgrymu graddfeydd cyflogau ar gyfer clerod, mae'r cytundeb gan Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol a Chymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol yn grwpio Cyngorau Cymuned a Thref yn fandiau yn seiliedig ar raddfa'u gweithgarwch ac ar werthuso swyddi.^{xi}

Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, y prif ffactor gwahaniaethol yw a ydynt yn gallu (yn meddu ar y capasiti a'r gallu) i gyflawni'r rôl darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd a ragwelir gennym ni ac a gaiff ei hegluro mewn argymhellion diweddarach. Nid ydym yn rhagnodi trothwy mympwyol ar gyfer hyn, yn nhermau daearyddiaeth, poblogaeth nac incwm, er y bydd y rhain i gyd yn effeithio ar allu cyngor i weithredu.

Rydym yn credu y dylai pob cyngor gyflawni'r un rôl yr ydym yn ei nodi mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, ond y dylent gael y cyfle i gyflawni'r rôl honno'n wahanol pa un a yw'n dewis:

- ei chyflawni ei hunan
- dod ynghyd fel grŵp i'w chyflawni
- neu gomisiynu gwasanaethau gan Gyngorau Cymuned a Thref eraill neu eu Hawdurdod Lleol neu'r Trydydd Sector neu'r Sector Preifat.

Rydym wedi clywed am nifer o wahanol ffyrdd y mae Cyngorau Cymuned a Thref eisoes yn darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n gweddu orau iddynt. Er enghraifft, gwyddom o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Lywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Lleol*^{xii} fod rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn mynd ati ar y cyd i ddarparu gwasanaethau drwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Mae i bob un o'r modelau hyn ei werth.

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn rhan o'r dirwedd Llywodraeth Leol ehangach. Mae'n bwysig eu bod yn gweithio'n effeithiol ac ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol. Yn rhy aml mae'r berthynas hon yn teimlo fel pe bai wedi'u gorfodi ac mae Cyngorau Cymuned a Thref yn cael eu gweld fel 'plâu nid partneriaid'. Dylai Cyngorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Lleol fod yn bartneriaid cyfartal ac nid ydynt yn atebol i'w gilydd.

Mae'n rhaid wrth ymgysylltu cadarnhaol, ystyrlon a chyfartal rhwng Cyngorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Lleol. Mae argymhellion diweddarach yn awgrymu sut orau i gyflawni hyn er budd cymunedau ledled Cymru yn ein tyb ni.

Thema 2: Cyngorau Cymuned a Thref – Beth y maent yn ei wneud

Argymhelliad Allweddol:

Dylai gwasanaethau seiliedig ar leoedd gael eu darparu gan Gyngorau Cymuned a Thref.

Mae angen mwy o eglurder ynghylch diben a rôl Cyngorau Cymuned a Thref, a hynny'n cael ei arwain gan egwyddor yr hyn y gellir ei wneud yn well yn lleol.

Pan ofynnwn ni pa rôl a ddylai fod gan Gyngor Cymuned neu Dref o ran darparu, fe wnaeth nifer o ymatebwyr nodi gwasanaethau cymunedol anstatudol lleol iawn. Er enghraifft, llwybrau troed cyhoeddus, canolfannau cymdeithasol, glanhau strydoedd, toiledau cyhoeddus, mynwentydd, parciau, gwybodaeth i dwristiaid ac yn y blaen. Mae cyfran sylweddol o'r dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr adolygiad yn amlygu'r dryswch rhwng cyfrifoldebau Cyngorau Cymuned a Thref a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol. Mewn rhai achosion, ceir dryswch o du'r Cyngorau Cymuned a Thref eu hunain hyd yn oed.

Rydym yn credu y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae Cyngor Cymuned a Thref yn gyfrifol amdano a'r hyn y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdano. Bydd hyn yn rhoi eglurder i'r cyhoedd ac yn llywio newid. At ei gilydd, dylai Cyngorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol am yr holl wasanaethau 'sy'n seiliedig ar leoedd' a dylai Awdurdodau Lleol fod yn gyfrifol am wasanaethau 'sy'n seiliedig ar bobl' neu wasanaethau rheoleiddiol neu strategol (megis addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd yr amgylchedd).

Rydym wedi penderfynu y dylai gwasanaethau 'sy'n seiliedig ar leoedd' fod yn unrhyw wasanaethau (dewisol yn bennaf) sy'n helpu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, a chorfforol y gymuned y gellir eu cysylltu â lle ac a all amrywio o le i le, yn hytrach na gwasanaethau sy'n seiliedig ar bobl, gwasanaethau statudol neu reoleiddiol y mae'n fwy tebygol y bydd angen iddynt fod yn gyfartal ledled y wlad. Mae'n anodd pennu rhestr lawn o wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd gan fod y gwasanaethau hyn yn gallu amrywio yn seiliedig ar angen y gymuned a bod rhestrau'n gallu dyddio'n gyflym. Gallai enghreifftiau o wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd gynnwys¹:

- Tir claddu
- Cysgodfannau bysiau a dodrefn a nodweddion stryd

Mae Cyngor Tref Caerwys, ar y cyd â Chyngorau Cymuned Helygain a Chwittfordd yn cydweithio ar oleuadau stryd.

Gweithiodd Cyngor Cymuned Llandudoch mewn partneriaeth i nodi tir posibl ar gyfer rhandiroedd.

¹ Gallai rhai o'r gwasanaethau hyn gael eu darparu gan Gyngorau Cymuned a Thref drwy gytundeb â'r awdurdod perthnasol.

- Asedau cymunedol gan gynnwys neuaddau / canolfannau pentref, toiledau ac yn y blaen
- Diwylliant, twristiaeth a threftadaeth gan gynnwys llyfrgelloedd, mannau celfyddydol, amgueddfeydd
- Yr amgylchedd gan gynnwys glanhau strydoedd / casglu biniau ar ochr y stryd, sbwriel, torri gwair, draenio
- Priffyrdd gan gynnwys llwybrau troed a phalmentydd lleol
- Cyfleusterau hamdden / adloniant gan gynnwys canolfannau hamdden, neuaddau chwaraeon
- Marchnadoedd
- Caeau chwarae / mannau agored / parciau / rhandiroedd
- Cludiant gan gynnwys cludiant cymunedol neu bentrefol / cysgodfannau bysiau
- Cofebau rhyfel.

Rydym yn credu y dylai 'gwasanaethau sy'n seiliedig ar bobl', gwasanaethau statudol a rheoleiddiol a gwasanaethau strategol statudol 'sy'n seiliedig ar leoedd' aros ar lefel awdurdodau lleol. Rydym wedi nodi isod rai enghreifftiau o swyddogaethau NAD ydynt yn wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yn ein tyb ni. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

- Gwasanaethau etholiadol a chofrestreiddio
- Bilio a chasglu refeniw
- Gwasanaethau strategol a rheoleiddiol ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tai a gwasanaethau iechyd
- Gwasanaethau rheoli gwastraff strategol a rheoleiddiol – gwaredu, casglu gwastraff cartref ac ailgylchu
- Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth strategol a rheoleiddiol – gweithredu fel awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am gefnffyrdd, cynnal a chadw ffyrdd a rheoli llif traffig
- Gwasanaethau rheoleiddiol i warchod defnyddwyr
- Iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau rheoleiddiol
- Gwasanaethau cynllunio strategol a rheoleiddiol
- Datblygu economaidd strategol
- Cynllunio at argyfyngau.

Mewn sawl achos, bydd diffinio gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yn dibynnu ar benderfyniad ac angen lleol. Rydym yn cydnabod y bydd amrywiadau lle nad yw'r ffin rhwng y ddau yn eglur bob amser; er hynny, rydym yn teimlo bod y gwahaniaethu hwn yn ei gwneud yn gliriach i'r cyhoedd, i'r staff ac i'r cynghorau eu hunain beth yw'r gwahaniaethau rhwng rôl Cynghorau Cymuned a Thref a rôl Awdurdodau Lleol.

Fe roddom ystyriaeth i'r ymchwil a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018 gan Lywodraeth Cymru i *Reoli a darparu gwasanaethau ac asedau mewn Cynghorau Cymuned a Thref*^{xiii}. Canfu'r ymchwil fod Cynghorau Cymuned a Thref eisoes yn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yn eu cymunedau. Er enghraifft, o'r 254 o gynghorau a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 81% eu bod yn darparu gwasanaethau / amwynderau ar gyfer y cyhoedd. Y tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a oedd yn cael eu darparu oedd hysbysfyrddau, seddi, meysydd chwarae, meysydd

pentrefi a mannau gwyrdd eraill. Roedd gwasanaethau eraill a ddarperir yn cynnwys blodau a mannau chwarae, meysydd parcio, gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau hamdden. O'r 203 o gynghorau a ddywedodd a oeddent wedi cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau ai peidio yn y 12 mis diwethaf, dywedodd 21% eu bod wedi gwneud hynny. Y gwasanaethau/amwynderau mwyaf cyffredin ymhlith y rhai a oedd wedi'u caffael yn ddiweddar oedd meysydd chwarae, meysydd pentref a mannau gwyrdd eraill, toiledau cyhoeddus, cysgodfannau bysiau a goleuadau Nadolig. Yn olaf, dynododd 28% o'r holl gynghorau a arolygwyd eu bod yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau yn y 12 mis nesaf; nid oedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau yn y 12 mis blaenorol ychwaith.

Cafodd rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y broses o gynllunio defnydd tir yn lleol ei hamlygu gan y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector, gyda llawer o Gynghorau Cymuned a Thref eu hunain yn nodi'r diffyg pwys a roddir ar eu hymatebion i geisiadau cynllunio. Rydym yn credu ei bod yn well i wasanaethau cynllunio gael eu darparu'n strategol, fel sy'n digwydd yn awr. Fodd bynnag, rydym yn teimlo y gellid gwneud mwy i gryfhau ymatebion gan Gyngor Cymuned a Thref – o ran ansawdd yr ymateb a'r pwys a roddir arno. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy argymhellion diweddarach. Mae Cynghorau Cymuned a Thref mewn lle da hefyd i hwyluso datblygiad Cynlluniau Bro fel rhan o'r canllawiau cynllunio ategol sy'n sail i Gynlluniau Datblygu Lleol.

Rydym yn credu yn egwyddor sybsidiaredd ac y dylai rhai gwasanaethau gael eu datganoli os ydynt yn gallu cael eu darparu'n well a chael yr effaith fwyaf ar gyfer dinasyddion ar y lefel honno. **Rydym yn disgwyl i wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd ddod yn gyfrifoldeb i Gynghorau Cymuned a Thref.** Rydym yn cydnabod y bydd angen cyfnod pontio; serch hynny, rydym yn credu y dylai'r broses hon ddechrau cyn gynted â phosibl. Mae sicrhau bod Cynghorau Cymuned a Thref â chapasiti a gallu digonol yn gwasanaethu pob ardal yn ofyniad ymhlyg ar gyfer hyn.

Mae'n hollbwysig i Gynghorau Cymuned a Thref fod â'r gallu i wneud beth bynnag sydd orau i'w cymuned yn eu tyb hwy – y tu hwnt i ddarparu'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd a ddisgrifir uchod. Dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod â'r gallu i gyflawni gweithgarwch ychwanegol sy'n ategol ac yn gyflenwol i wasanaethau eraill 'sy'n seiliedig ar bobl' a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol (yn hytrach na chymryd drosodd y rôl) ar yr amod mae dyma y mae ar y bobl leol ei eisiau a'i angen. Er enghraifft, y grym i gynhyrchu a chyflenwi ynni cymunedol yn lleol.

Dylai Cynghorau Cymuned a Thref gael rôl allweddol o ran rhoi cymorth i roi Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith, drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth sylfaenol yn eu cymunedau. Yn eu rôl fel galluogwyr gweithgarwch cymunedol, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn aml yn ddeorfa ar gyfer syniadau / datrysiadau unigryw a dylid cefnogi hyn.

Gwyddom fod llawer o enghreifftiau lle mae Cyngor Cymuned a Thref wedi mynd y tu hwnt i weithgarwch 'arferol' cyngor i fynd i'r afael â'r hyn y mae ar bobl ei eisiau a'i angen yn eu cymuned. Rydym yn credu **bod gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl glir i wella llesiant pobl yn eu**

Bu Cyngor Tref Trefynwy yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy a Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

hardaloedd ac na ddylid eu hatal rhag gwneud unrhyw beth y mae ar eu cymuned ei angen yn eu tyb hwy. Rydym yn credu y bydd cyflwyno'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol cyn bo hir yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen.

Rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref fod â'r pwerau angenrheidiol iddynt allu cyflawni'r rôl o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer.

Yn ystod yr adolygiad, rydym wedi clywed llawer o dystiolaeth o'r angen i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref. Nid yw'n ymddangos yn synhwyrol bod gan gyngorau'r pŵer i fod yn berchen ar lyn badau ond nad oes ganddynt y pwerau i redeg pwll nofio. Un enghraifft yn unig yw hyn o'r anghysonderau a ganfuom.

Rydym wedi ystyried y pwerau sydd ar gael iddynt ac er ei bod yn amlwg bod rhai pwerau yn eisiau o'r fframwaith pwerau sydd ar gael i Gyngorau Cymuned a Thref, nid ydym yn teimlo y byddai'n ddoeth ceisio rhestru a mynd i'r afael â phob un o'r pwerau hyn ar wahân, o ystyried y posibilrwydd y gallai unrhyw set o bwerau fynd yn hen.

Gyda'r camau i gyflwyno'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol cyn bo hir, a'r bwriad i drefnu bod hwn ar gael i gyngorau sy'n bodloni meini prawf penodol, rydym yn credu y bydd hyn yn darparu'r pŵer deddfwriaethol sydd ei angen i Gyngorau Cymuned a Thref gyflawni'r rôl a ragwelir ar eu cyfer.

Rydym yn galw ar yr holl Gyngorau Cymuned a Thref i fod yn gweithio tuag at fodloni'r meini prawf i allu arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac yn meddwl ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt gyflawni hyn o fewn y tair blynedd nesaf.

Mae rôl allweddol i Gyngorau Cymuned a Thref o ran parhau i weithredu fel llais lleol ar ran y gymuned. Nid haen 'is' o Lywodraeth Leol yw Cyngorau Cymuned a Thref ond yn hytrach yr haen sydd agosaf at gymunedau. Mae eu gwybodaeth leol yn hollbwysig ac mae bod yn eiriolwr lleol ar gyfer penderfyniadau / cyngor i bartneriaid eraill (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymunedol eraill) yn rôl allweddol y gallent ac y dylent ei chyflawni. Dylai Cyngorau Cymuned a Thref fod yn rhan annatod o benderfyniadau ynglŷn â defnyddio a dyrannu cyllid cyhoeddus sy'n effeithio ar 'eu lle'.

Un o'r swyddogaethau allweddol y dylai Cyngorau Cymuned a Thref ei chyflawni yw bod yn ddarparwr gwybodaeth ar gyfer eu cymunedau a dod yn ganolbwynt lleol / cyflawni rôl gyfeirio. Maent mewn safle delfrydol i fod yn brif gyfrwng i rannu gwybodaeth â'u cymuned.

Roedd llawer o'r dystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn nodi bod gan Gyngorau Cymuned a Thref rôl allweddol gan eu bod wrth galon bywyd eu cymunedau. Maent mewn safle delfrydol i rannu gwybodaeth gyda'r gymuned a chan y gymuned. Fel y crybwyllwyd uchod, roedd y mwyafrif o'r ymatebion gan Gyngorau Cymuned a

Thref eu hunain yn nodi'r diffyg pwys a roddir ar eu barn, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio.

Dylai fod gan Gyngorau Cymuned a Thref lais cryfach i helpu i lunio eu hardaloedd. **Rydym yn argymhell y dylid archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno dyletswydd benodol ar Gyngorau Cymuned a Thref i gynrychioli eu cymuned fel bod grym ffurfiol i lais y cyngorau, yn amodol ar unrhyw brotocolau perthnasol.** Rydym hefyd yn credu y dylid ystyried dyletswydd i ddarparu gwybodaeth.

Mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gwyddom ei bod yn berthnasol mewn ffordd gyfyngedig i Gyngorau Cymuned a Thref ar hyn o bryd (gyda dyletswydd ar Gyngorau Cymuned a Thref mwy o faint i gymryd camau rhesymol tuag at gyflawni'r cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardal). Er mwyn inni ddwyn budd gwirioneddol i genedlaethau'r dyfodol, mae gan Gyngorau Cymuned a Thref rôl hollbwysig o ran gwella llesiant a dylai hon gael ei chydabod yn llawnach.

Rydym yn argymhell, er na ddylent fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd lawn mewn perthynas â llesiant, **ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau Cymuned a Thref weithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum ffordd o weithio).**

Gwyddom fod enghreifftiau da o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd eisoes yn ymgysylltu â Chyngorau Cymuned a Thref yn eu hardaloedd, er mwyn cynnwys llais eu cymunedau yng ngwaith y Byrddau. Er enghraifft, gwyddom fod gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a Cheredigion gynrychiolwyr o Gyngorau Cymuned a Thref ar y bwrdd.

Er ein bod yn gwybod bod rhai Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi ceisio cynrychiolaeth o blith Cyngorau Cymuned a Thref yn eu gwaith rydym yn ymwybodol nad oes gan Gyngorau Cymuned a Thref unrhyw rôl ffurfiol ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol ac rydym yn credu y dylid cywiro hyn. Er mwyn gallu cyflawni'r rôl hon mae angen i Gyngorau Cymuned a Thref feddu ar y mandad democrataidd i wneud hynny ac rydym yn trafod hyn ymhellach.

Ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin wedi datblygu perthynas weithio dda gyda'r saith cyngor sy'n dod o dan ddyletswydd y Ddeddf ac yn cwrdd â nhw yn gyson.

Rydym yn argymhell y dylai Cyngorau Cymuned a Thref – neu gynrychiolydd ar eu rhan – ddod yn gyfranogwr gwadd statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er mwyn bod yn dda am wneud yr uchod, dylai Cyngorau Cymuned a Thref fod â rôl weithredol o ran ymgysylltu ac ymgynghori â'u cymunedau. Er bod enghreifftiau o arferion da yn y maes hwn, nid yw'n digwydd ym mhobman ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyletswyddau ar Gyngorau Cymuned a Thref mewn perthynas ag ymgysylltu â'u cymunedau neu eu cynnwys.

Fe wnaeth ymatebwyr i'r adolygiad dynnu sylw at y ffaith fod gwahaniaeth rhwng Cyngorau Cymuned a Thref o ran faint o ymgysylltu y maent yn ei wneud. Roedd rhai'n gadarnhaol gan nodi i ba raddau y mae eu cyngor cymuned yn ymgysylltu â'i gymuned, boed drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau neu gynllunio cymunedol. Fodd

bynag, roedd nifer o ymatebion, yn enwedig gan aelodau o'r cyhoedd, yn nodi nad oedd eu cyngor cymuned wedi ymgysylltu â hwy. Hefyd, dywedodd dros hanner y bobl ifanc a ymatebodd nad oeddent wedi cael unrhyw gysylltiad â'u cyngor cymuned nac unrhyw ymwneud ag ef (ac eithrio wrth gwblhau ein harolwg ni).

Dywedodd rhai ymatebwyr fod iaith yn rhwystr i ymgysylltu â'u cyngor cymuned. Rydym yn nodi bod gan yr holl drigolion yr hawl i ymgysylltu â'u Cyngor Cymuned neu Dref yn eu dewis iaith ac y dylai cynghorau gymryd camau priodol i ddiwallu'r angen hwn, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Dylai fod gan bob unigolyn, gan gynnwys pobl anabl, yr hawl i gael mynediad at fusnes Cynghorau Cymuned a Thref, eto cyn belled ac y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.

Rydym yn credu y dylai fod set o safonau ac egwyddorion y dylai'r holl Gynghorau Cymuned a Thref eu dilyn o ran Ymgysylltu â'r Gymuned.

I alluogi Cynghorau Cymuned a Thref i gynrychioli eu cymunedau go iawn, **rydym yn argymhell gosod dyletswydd ar Gynghorau Cymuned a Thref i ymgysylltu ac y dylent gael eu cynorthwyo i wneud hyn yn briodol.** Dylid cyfuno hyn â gofyniad i nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud, ac i adrodd ar yr hyn y maent wedi'i wneud. Ceir manylion pellach ynghylch sut yr ydym yn meddwl y gellid cyflawni hyn yn y thema olaf.

Dyfeisiodd Cyngor Tref Trefynwy ddigwyddiad i'r gymuned i greu llusernau i'w harddangos mewn gorymdaith gyda'r nos.

Yn Llandochoau, gofynnodd y cyngor i'r gymuned sut roedd ei wasanaethau'n cael eu defnyddio a sut y gellid eu gwella.

Thema 3: Cyngorau Cymuned a Thref – Sut y maent yn ei wneud

Argymhellion Allweddol:

Rhaid i bob clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol, a dylai CILCA fod yn gymhwyster disgwylidig fel lleiafswm.

Dylai fod pecyn craidd gorfodol o hyfforddiant i bob cyngorydd, a hynny'n sail ofynnol i dderbyn y swydd.

Mae ar Gyngorau Cymuned a Thref angen y capasiti a'r gallu i gyflawni'r rôl a ragwelir ar eu cyfer. Nid yw'r capasiti a'r gallu hwn gan lawer ar hyn o bryd. Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn perthyn i ddau gategori, sef y rhai sy'n gallu cyflawni'r rôl a ragwelir ar eu cyfer yn annibynnol a'r rhai nad ydynt yn gallu gwneud hynny.

Mae amryw o wahanol fodelau y gallai Cyngorau Cymuned a Thref eu dewis er mwyn darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd. Gallent:

- Ddewis darparu gwasanaethau eu hunain os ydynt yn ddigon mawr
- Cydweithio â Chyngorau Cymuned a Thref a / neu'r Trydydd Sector neu'r Sector Preifat yn eu hardal i ddarparu gwasanaethau
- Comisiynu'r gwasanaethau hyn gan eu Hawdurdod Lleol neu Gyngor Cymuned neu Dref mwy arall neu'r Trydydd Sector neu'r Sector Preifat.

Mae'n werth nodi bod gwahaniaeth rhwng trefnu i ddarparu, a mynd ati i ddarparu. Er enghraifft, gall cyngorau llai ddod ynghyd i gyflawni'r rôl ac yna dewis naill ai darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol neu ei gomisiynu. Mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwasanaethau 'hunangynhaliol' a allai gael eu darparu ar wahân gan gyngor cymuned a gwasanaethau 'trawsffiniol' lle gall y gwasanaeth neu'r ased eistedd o fewn ardal un cyngor ond cael ei ddefnyddio gan gyngorau cyfagos.

Fe wnaethom ystyried modelau darparu gwahanol gan archwilio enghreifftiau ledled Cymru gan gynnwys y memorandwm cyd-ddealltwriaeth i reoleiddio gweithgareddau cydweithio yn well a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Wledig Llanelli, amrywiadau ar fentrau cymdeithasol megis yr un a sefydlwyd gan Bartneriaeth Ogwen, y cwmni dielw cyfyngedig a sefydlwyd gan Bartneriaeth Penllyn, y cwmni budd cymunedol sy'n cael ei sefydlu gan Ogledd Sir Drefaldwyn a'r fenter gymdeithasol ddielw a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Solfach. Mae i bob un ei werth.

Rydym wedi darganfod nifer o fodelau a mecanweithiau darparu gwahanol gan gynnwys Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Mentrau Cymdeithasol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr wrthym y dylai'r hyn y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei ddarparu a sut y maent yn ei ddarparu'n lleol gael eu pennu gan anghenion lleol. Hefyd, gwyddom fod dyhead ymhlith Cyngorau Cymuned a Thref i gadw eu hunaniaeth leol a pheidio â chael eu cyfyngu neu eu goddiweddyd gan gyngor mwy. Rydym yn credu mai'r model gorau ar gyfer cyflawni hyn yw model tebyg i rai Penllyn ac Ogwen. Fodd bynnag, **nid ydym yn credu y dylem ragnodi sut y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn dewis ymgymryd â'r rôl hon yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer.** Dylent fod â'r hyblygrwydd i benderfynu pa fodel darparu sy'n gweithio orau iddynt hwy.

I gynorthwyo ac annog Cyngorau Cymuned a Thref i gydweithio, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mecanweithiau a mentrau i roi anogaeth i gydweithio megis cyllid cyfatebol i gyflawni prosiect cydweithredol ar y cyd neu gymorth cyfreithiol gyda threfniadau cydweithredol ffurfiol. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru eisoes yn annog Cyngorau Cymuned a Thref i gydweithio at ddiben drwy eu grant clystyru.

Rydym hefyd yn credu y dylai fod arweiniad a chymorth ar gael, gan gynnwys rhannu arferion da, i gynorthwyo Cyngorau Cymuned a Thref i ddewis y model darparu gorau iddynt hwy.

Mae angen i Gyngorau Cymuned a Thref gael eu cefnogi'n broffesiynol drwy staff cymwys ac annibynnol. Mae'r clercc yn ffynhonnell cyngor allweddol i Gyngor Cymuned a Thref ac mae'n hollbwysig bod y clercc wedi'i arfogi'n briodol i gyflawni'r rôl honno o ran arbenigedd ac amser. Rydym wedi clywed eu bod yn gallu deimlo'n ddiamddiffyn ac yn ynysig.

Mae gwrthgyferbyniad a gwrthdaro ar hyn o bryd yn yr ystyr bod clerccod yn cael eu cyflogi gan Gyngor Cymuned a Thref, ac mai un o swyddogaethau allweddol rôl y clercc, fel y swyddog priodol, yw sicrhau bod cyngorau a chynghorwyr yn gweithredu o fewn eu pwerau cyfreithiol. Er bod hynny'n wir yn achos rhai swyddogion mewn Awdurdodau Lleol, gall y ffaith mai nifer fach o staff (un person yn aml) sydd gan Gyngor Cymuned a Thref ddwysáu'r sefyllfa.

Yn ystod yr adolygiad, rydym wedi clywed gan glerccod eu hunain am yr anawsterau y maent yn eu hwynebu. Dywedodd nifer wrthym ei bod yn swydd sy'n rhoi boddhad mawr iddynt, ond y gall fod yn swydd unig sy'n gofyn llawer. Er nad yw llawer ohonynt yn gweithio'n llawn-amser, maent yn gweithio y tu hwnt i oriau eu contract er mwyn helpu eu cymuned. Mae llawer o gyngorau wedi sôn am y rôl hanfodol y mae eu clercc yn ei chyflawni i gefnogi'r cyngor a'i gymuned.

Gwyddom o'r ymchwil gan Lywodraeth Cymru *Rheoli a darparu gwasanaethau ac asedau mewn Cyngorau Cymuned a Thref*^{xiii} mai dim ond un clercc y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei gyflogi mewn llawer o achosion. Hyd yn oed wedyn, mae'r adnodd hanfodol hwn yn aml yn un rhan-amser, ac mae 72% o'r cyngorau heb unrhyw gyflogaion llawn-amser.

Fe gomisiynodd y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ymchwil^{xiv} i faterion sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu cynghorau. Canfu'r ymchwil, er bod lleiafrif bach o gynghorau lle mae'r clerc neu aelodau eraill o staff wedi dioddef yn uniongyrchol yn sgil ymddygiad gwael gan gynghorwyr, bod clercod gan fynychaf yn tueddu i gael eu dal yng nghanol yr ymgiprys, naill ai wrth i bobl dargedu'r ffordd y mae'r cyngor yn cael ei redeg yn gyffredinol neu am eu bod yn gorfod rheoli'r ymddygiad neu gymodi rhwng carfannau gwahanol. Dywedodd lleiafrif o ymatebwyr eu bod wedi gadael rôl flaenorol fel clerc oherwydd y ffordd yr oeddent yn cael eu trin ac roedd llond llaw o ymatebwyr naill ai mewn anghydfod cyflogaeth gyda'u cyngor ar hyn o bryd neu wrthi'n ystyried hynny.

Rydym yn credu y byddai trefn lle mae clercod yn gweithredu fel rhan o 'gronfa' yn rhoi rhywfaint o gymorth gan gymheiriaid iddynt yn ogystal â chynnig cyfleoedd i safoni dulliau (megis gyda thelerau ac amodau); yn cynnig mwy o gyfle ar gyfer hyblygrwydd o ran y cymorth ar draws cynghorau; ac yn eu galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfa. **Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y byddai rhwydwaith fel hyn o glercod yng Nghymru yn gweithio.**

O ystyried y rôl allweddol y mae clercod yn ei chyflawni mewn cyngor, **rydym yn argymhell y dylai'r holl glercod feddu ar gymhwyster proffesiynol neu fod yn gweithio tuag at hynny. Dylai'r Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Llywodraeth Leol (CILCA) fod yn gymhwyster disgwylidig fel lleiafswm**. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig ag ennill y cymhwyster hwn. **Rydym yn argymhell y dylai clercod gael eu penodi o restr genedlaethol gymeradwy.** Gall hyn sicrhau bod yr holl glercod yn meddu ar yr achrediad disgwylidig cyn cael eu cyflogi gan Gyngor Cymuned a Thref yn ogystal â darparu mecanwaith i gefnogi clercod.

Rydym yn credu y dylai democratiaeth a dinasyddiaeth gael lle mwy blaenllaw yn y cwricwlwm er mwyn helpu i ysgogi ac annog pobl ifanc i chwarae rhan weithredol mewn democratiaeth leol ac i ystyried gyrfa yn y Sector Cyhoeddus.

Hyd yn oed gyda'n hargymhellion uchod, gwyddom fod angen, mewn rhai achosion, i Gynghorau Cymuned a Thref allu manteisio ar gyngor a chymorth arbenigol proffesiynol.

Mae llawer o Gynghorau Cymuned a Thref wedi dweud wrthym, er gwaethaf ymdrechion y corff sy'n cynrychioli'r sector, bod diffyg cyngor a chymorth proffesiynol ar gael yn benodol ar gyfer meysydd arbenigol. Rydym wedi clywed enghreifftiau lle'r oedd ar Gynghorau Cymuned a Thref angen cyngor arbenigol mewn perthynas â chymorth adnoddau dynol neu gyngor cyfreithiol.

O ystyried y dystiolaeth, rydym wedi canfod bod Cynghorau Cymuned a Thref yn defnyddio tri dull gwahanol i gael y cyngor hwn:

- Cael y cyngor (os yw ar gael) gan y corff sy'n cynrychioli'r sector yng Nghymru, Un Llais Cymru, neu, lle bo'n briodol, gan y corff sy'n cynrychioli'r sector yn Lloegr, Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol

- Cael y cyngor gan yr Awdurdod Lleol – mewn rhai achosion ledled Cymru mae cytundebau'n bodoli i Gynghorau Cymuned a Thref dalu am y cyngor hwn. Fodd bynnag, gwyddom fod nifer o achosion lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar sail ad hoc, rad-ac-am-ddim (gan gydnabod y gallai fod gan yr Awdurdod Lleol gyfraith ac amcanion gwahanol). Gall hyn ddibynnu ar faint o gapasiti rhydd sydd gan yr Awdurdod Lleol
- Cael y cyngor hwn yn annibynnol – mae hyn yn aml yn gostus a gall gymryd llawer o amser.

Mae'r dulliau gwahanol hyn yn golygu'n aml bod Cynghorau Cymuned a Thref yn cael cyngor gwahanol ar yr un materion. **Rydym yn credu bod angen i'r cyngor a'r cymorth hyn gael eu darparu ar sail genedlaethol**, i sicrhau bod y cyngor yn gyson, yn gywir ac yn effeithlon.


Mae'n bwysig bod gan Gynghorau Cymuned a Thref yr adnoddau y mae eu hangen arnynt i gyflawni'r rôl o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd a ragwelir ar eu cyfer.

Yn ei adroddiad diweddaraf^{xiii}, fe nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru bod incwm cynghorau cymuned yng Nghymru wedi cynyddu fwy na £7 miliwn ers 2014-15 a bod 75% o hwn yn cael ei godi drwy'r dreth gyngor (praesept). Mae incwm Cynghorau Cymuned a Thref o'r praesept yn unig wedi cynyddu o £33 miliwn yn 2014-15 i ychydig dros £40 miliwn yn 2016-17.

Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref y pŵer i godi'r praesept ac ni ddylent fod yn gyndyn o wneud hynny lle gwnaed achos clir drwy sgwrs leol gyda'u hetholaeth.

Mae rhai Cynghorau Cymuned a Thref eu hunain wedi mynegi eu bod yn credu bod dyletswydd arnynt i gadw'r praesept mor isel â phosibl. Er ein bod yn deall y teimlad sydd y tu ôl i hyn, gwyddom fod llawer o achosion lle mae Cyngor Cymuned neu Dref, ar ôl ymgynghori â'i gymuned, wedi codi'r praesept i ddiwallu'r angen a darparu gwasanaethau gwerthfawr.

O ddata a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru, gwyddom fod 325 o Gynghorau Cymuned neu Dref wedi codi praesept o lai na £10,000 yn ystod 2016-17. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y praesept isaf a godwyd gan Gyngor Tref neu Gymuned yn gyfanswm o £174 yn unig ac roedd y praesept uchaf a godwyd ychydig dros filiwn o bunnoedd, sef £1,003,230.



Gallwn weld yn glir bod nifer o Gynghorau Cymuned a Thref nad yw eu praesept yn ddigon mawr i gyflawni rôl gynyddol neu i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol.

Hyd yn oed pan fo'n cael ei gynyddu, ceir achosion hefyd lle na fyddai'r praesept yn ddigon i gyllido gwasanaethau'n gynaliadwy. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'n harolygon yn nodi'r angen am fwy o fynediad at gyllid i Gynghorau Cymuned a Thref. Fe wnaeth llawer o ymatebwyr enwi amryw wahanol ffrydiau cyllido y credir y dylai fod gan Gynghorau Cymuned a Thref fynediad atynt. Er enghraifft, mae llawer o Gynghorau Cymuned a Thref yn cyfrannu at hyfywedd eu cymuned, y mae busnesau lleol yn cael budd ohono. Roedd nifer helaeth o ymatebion yn amlygu'r angen i Gynghorau Cymuned a Thref gael cyfran o Ardrethi Busnes. Rydym hefyd yn deall bod cyfyngiadau amrywiol ar fynediad at rai grantiau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

Mae cronfeydd wrth gefn Cynghorau Cymuned yn cynyddu bob blwyddyn hefyd ac ym mis Mawrth 2017, roeddent yn gyfanswm o £41.5 miliwn. Er ein bod yn gwybod bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu dal am amrywiaeth o resymau, mae cronfeydd wrth gefn Cynghorau Cymuned a Thref wedi cynyddu fwy na £10 miliwn (33%) dros y blynyddoedd ariannol o 2014-15 i 2016-17.

Pan fo gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol i Gynghorau Cymuned a Thref, mae disgwyliad y deuir i gytundeb mewn perthynas â chyllid. Gwyddom nad yw hyn yn digwydd ac yn aml gofynnir i Gynghorau Cymuned a Thref, yn y bôn, ymgymryd â rhwymedigaethau heb gymorth. Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol sydd ar Awdurdodau Lleol, dylai fod rhagdybiaeth bod Cynghorau Cymuned a Thref yn cael y cyllid / yr incwm sy'n dod gyda gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd pan fyddant yn ysgwyddo cyfrifoldeb amdanynt. Hefyd, dylai'r gymuned gael unrhyw incwm a gaiff ei greu mewn perthynas â gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd.

Rydym wedi clywed llawer am fater 'trethiant dwbl'. Ymddengys fod hyn yn bodoli ar ddwy ffurf; y gyntaf lle mae *canfyddiad* gan y cyhoedd bod eu treth gyngor yn prynu gwasanaeth penodol gan yr Awdurdod Lleol er nad yw, o bosibl, yn ei ddarparu mwyach. Yr ail yw pan fo'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaeth mewn un rhan o'i ardal ond bod yr un gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Gyngor Tref neu Gymuned mewn rhannau eraill o'r ardal. Rydym yn credu y bydd mwy o eglurder o ran rôl Cyngor Cymuned a Thref yn mynd i'r afael â'r cyntaf o'r rhain. Bydd sicrhau bod gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu darparu mewn modd mwy cyson gan Gynghorau Cymuned a Thref yn helpu i fynd i'r afael â'r ail.

Mae rhai ymatebion wedi nodi bod cynghorau'n teimlo'u bod yn cael eu hatal gan y terfynau dan Adran 137, gyda'r terfyn ariannol yn atal cymhwysedd a gwella cyfathrebu gyda'r Trydydd Sector ar lefel leol. Yn ein digwyddiadau ymgysylltu, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol wrthym fod diffyg eglurder a dryswch ynglŷn â'r terfynau dan Adran 137 a'r hyn y gellir ei defnyddio'r cyllid ar ei gyfer.

Rydym yn credu bod nifer o wahanol ddulliau y dylid eu harchwilio mewn perthynas â chyllid ychwanegol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref gan gynnwys:

- Defnydd gwell o ffynonellau cyllido presennol (e.e. cynyddu'r praesept, defnyddio cronfeydd wrth gefn, y gallu i fenthycu, y pŵer i godi tâl am wasanaeth dewisol)

- Mynediad newydd at ffynonellau cyllido (e.e. cymhwysra ar gyfer grantiau, pŵer i fasnachu)
- Aildodosbarthu cyllid a ddarperir ar gyfer Llywodraeth Leol (e.e. cyfrannau o ardrethi annomestig a'r dreth gyngor; Ardoll Seilwaith Cymunedol)
- Cyllid ychwanegol (e.e. trethiant lleol newydd, cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru).

Rydym yn credu y dylai Cynghorau Cymuned a Thref gael eu gwneud yn ymwybodol o'r ffynonellau cyllido eraill hyn a bod â mwy o fynediad atynt. Hefyd, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir trosglwyddo'r cyllid a'r incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt.

Mae rôl cynghorydd Cymuned a Thref yn newid. Gwyddom fod nifer o Gynghorwyr yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, a hwythau mewn gwirionedd yn aelodau etholedig â chyfrifoldebau statudol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau bod nifer sylweddol o Gynghorau Cymuned a Thref yn dangos diffyg dealltwriaeth am y fframwaith llywodraethu y maent yn gweithredu oddi mewn iddo ac nad ydynt yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol. Rydym yn cytuno â'r camau a gymerwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i atgyfnerthu mai aelodau etholedig yw Cynghorwyr. Rydym yn credu y dylai fod disgrifiad cliriach o'r disgwyliadau o gynghorydd yng ngoleuni'r rôl newydd ar gyfer cyngorau yr ydym wedi'i nodi.

Fel aelodau etholedig, rhaid i gynghorwyr gyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt yn y Cod Ymddygiad^{xv} ac ymlynu wrth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)^{xvi}. Rydym yn trafod ymddygiad cynghorwyr ymhellach mewn argymhellion a geir yn nes ymlaen.

Mae tystiolaeth wedi dweud wrthym bod rhai cynghorwyr yn barod i gael hyfforddiant rheolaidd, tra bod eraill yn fwy cyndyn. Mae'n bwysig eu bod yn gyfarwydd â'r hyn a ddisgwylir ganddynt fel cynghorwyr.

Rydym yn argymhell y dylai pecyn craidd gorfodol o hyfforddiant i bob Cynghorydd fod yn un o'r gofynion pan dderbynnir y swydd a bod yr hyfforddiant gorfodol hwn yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd (bob tymor etholiad). Dylai hyn gynnwys:

- Y cod ymddygiad
- Sefydlu (gan roi sylw i'r rôl/disgwyliadau a'r fframwaith cyfreithiol)
- Bod yn gyflogwr
- Amrywiaeth a chynhwysiant
- Iechyd a diogelwch

- Cyllid (gofynion sylfaenol craidd)
- Cynllunio (gan gynnwys gofynion cwblhau ymateb i gais cynllunio).

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, Cyngorau Cymuned a Thref a chynghorwyr eu hunain i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cael hyfforddiant llawn a bod ganddynt gynllun hyfforddi.

Cafwyd llawer o dystiolaeth a barn gref o blaid, ac yn erbyn

gwleidyddiaeth plaid. Mae llawer o ymatebion wedi nodi sut y maent yn teimlo bod gwleidyddiaeth plaid yn atal y Cyngor Cymuned neu Dref rhag cyflawni'r hyn sydd orau i'r gymuned. I'r gwrthwyneb, rydym wedi clywed am y manteision y gall gwleidyddiaeth plaid eu dwyn o ran dangos dros beth mae ymgeiswyr i Gyngorau Cymuned neu Dref yn sefyll. Gall Cyngorau Cymuned a Thref fod yn ddull i unigolion lleol fynd i mewn i fyd gwleidyddiaeth hefyd. Nid ydym ni'n credu mai lle'r Panel hwn yw penderfynu a ddylai gwleidyddiaeth plaid fod yn rhan o'r haen hon o Lywodraeth Leol.

Mae nifer o gynghorwyr yn Gyngorydd Tref neu Gymuned yn ogystal ag yn Gyngorydd Awdurdod Lleol, neu'n aelod o fwy nag un Cyngor Cymuned neu Dref.

Eto mae'r Panel wedi clywed llawer o dystiolaeth a barn gref o blaid ac yn erbyn aelodaeth o'r fath. Mae llawer o ymatebwyr wedi dweud wrthym y gall aelodaeth ddeuol helpu i gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor Cymuned neu Dref a'r Awdurdod Lleol. I'r gwrthwyneb, mae llawer o ymatebion wedi nodi'r dryswch y gall hyn ei achosi, yn enwedig gydag aelodau'r cyhoedd, neu wrth drafod materion y mae agenda'r Awdurdod Lleol yn effeithio arnynt.

Yn eu hymateb i'r adolygiad, fe geisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru^{xvii} grynhoi manylion nifer y cynghorwyr 'deuol' ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond gan dri Awdurdod Lleol ar ddeg y cawsant wybodaeth. O'r tri ymateb ar ddeg, nodwyd fod 790 o gynghorwyr neu 54.8% yn rhai 'deuol'.

Er bod aelodau deuol yn gallu helpu ymgysylltiad, rydym yn credu y gall hefyd achosi gwrthdaro buddiannau, yn ogystal â chyfyngu ar y pwll democrataidd ac achosi dryswch. Am y rhesymau hyn, **rydym yn argymhell peidio â chael aelodau deuol, waeth pa fath o gyngor ydyw** ac y dylai Cynghorwyr Sir fynychu cyfarfodydd Cyngorau Cymuned a Thref yn eu ward yn rheolaidd (yn rhinwedd eu swydd) i sicrhau ymgysylltu.

Mae'n bwysig bod cyngorau'n ystwyth. Dylai cyngorau fod yn canolbwyntio ar benderfyniadau strategol ac yn defnyddio system bwyllgorau, lle bo hynny'n briodol, neu'n dirprwyo i swyddogion i fwrw ymlaen â'r manylion gweithredol. Bydd hyn yn galluogi'r cyngorau i ganolbwyntio ar 'Yr hyn sydd i'w wneud' ac i'r pwyllgorau neu'r swyddogion ganolbwyntio ar 'Sut y mae ei wneud'.

Rydym yn galw ar Gyngorau Cymuned a Thref i fod yn ystwyth, yn hyblyg ac yn strategol yn y ffordd y maent yn gwasanaethu eu cymuned. Rydym hefyd yn argymhell y dylai pob Cyngor Cymuned a Thref lunio Cynllun Dirprwyo gyda'r nod o wneud penderfyniadau'n gyflymach ar lefel sy'n briodol i raddfa a goblygiadau'r penderfyniad.

I'w galluogi i ganolbwyntio ar fusnes craidd y cyngor mae cyfleoedd i rannu swyddogaethau 'cefn swyddfa' (gan gynnwys, ymhlith eraill, adnoddau dynol, y gyflogres, cyllid ac yn y blaen). **Rydym yn argymhell y dylai Cyngorau Cymuned a Thref ystyried rhannu swyddogaethau cefn swyddfa.**

Er ei bod yn ofynnol i Gyngorau Cymuned a Thref fod â gwefan, gwyddom o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru^{xii}, er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cyngorau â gwefannau, fod dros 100 o gyngorau heb drefniadau digonol i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Gwyddom hefyd fod rhai o'r gofynion ar Gyngor Tref neu Gymuned wedi'u sefydlu mewn deddfau a wnaed nifer o flynyddoedd yn ôl na fyddent wedi gallu rhagweld datblygiad technoleg fel yr ydym ni'n ei defnyddio yn awr. Er enghraifft, dylai fod gan Gyngorau Cymuned a Thref y gallu i gyflwyno gwysion a phapurau'n electronig.

Yn ddiweddar mae Cyngor Cymuned Maesyfed wedi moderneiddio ei wefan gyda'r nod o ymgysylltu â'r gymuned.

Gwyddom fod llawer o Gyngorau Cymuned a Thref yn dechrau defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i wella'u ffordd o weithio. Er enghraifft, mae rhai cyngorau'n dechrau ffrydio rhannau o'u cyfarfodydd yn fyw. **Rydym yn argymhell bod Cyngorau Cymuned a Thref yn archwilio dulliau digidol er mwyn hwyluso'r ffyrdd o gynnal cyfarfodydd, o ymgysylltu ac o rannu gwybodaeth.**

Rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref gydweithio'n agos gyda phartneriaid yn yr ardal a bod â pherthynas gryf â hwy er budd y gymuned. Dylai Cyngorau Cymuned a Thref 'gydweithio nid cystadlu' gyda phartneriaid gan gynnwys rhannu gwybodaeth a gweithio gyda phartneriaid yn y Trydydd Sector. Gwyddom fod tebygrwydd rhwng y gwaith ymgysylltu a chynnwys pobl a wneir gan y Trydydd Sector a Chyngorau Cymuned a Thref.

Yn arbennig, mae angen perthynas well ag Awdurdodau Lleol. Gwyddom nad yw'n ddarlun cyson ledled Cymru, o ran perthynas Awdurdodau Lleol â Chyngorau Cymuned a Thref. Mae nifer o fforymau partneriaeth yn bodoli gyda'r nod o feithrin perthynas, ond nid yw'r fforymau hyn yn bodoli ym mhob ardal ac mae eu hansawdd yn amrywio. Er enghraifft, mae rhai'n cwrdd bob chwarter tra bod rhai'n cwrdd unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn unig. Y tu hwnt i'r fforymau hyn, rydym yn ymwybodol o gysylltiadau eraill. Er enghraifft, fel y soniwyd eisoes, gwyddom fod gan rai Gyngorau Cymuned a Thref drefniadau gyda'u Hawdurdodau Lleol i gael cyngor arbenigol.

Er bod llawer o ymatebion yn amlygu pwysigrwydd perthynas gref rhwng y ddwy haen o Lywodraeth Leol, yn y pen draw rydym wedi clywed llawer am fethiannau'r berthynas hon. Er enghraifft, mae nifer o Gynghorau Cymuned a Thref yn credu bod Awdurdodau Lleol yn eu hystyried yn faich ac yn isradd iddynt. Mae ymatebion a gafwyd gan Awdurdodau Lleol eu hunain yn amlygu anawsterau sefydlu a chynnal perthynas dda â Chynghorau Cymuned a Thref gan nodi'r anghysonderau rhwng cynghorau a'r ffaith nad oes Cynghorau Cymuned a Thref ym mhob ardal fel rhwystrau i feithrin perthynas dda. Rydym yn nodi bod enghreifftiau lle mae Awdurdodau Lleol wedi adnabod y bwlch yn eu perthynas â Chynghorau Cymuned a Thref a'u bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Rydym yn credu y gall ac y dylai gwasanaethau gael eu gwella ledled Cymru. Rydym yn argymhell **y dylai fod gan yr holl Awdurdodau Lleol fforymau partneriaeth rheolaidd** gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn seiliedig ar bartneriaeth gyfartal i fynd ar drywydd nod cyffredin. Dylai fod siarteri ystyrlon, neu ffyrdd eraill o ffurfioli'r berthynas. Hefyd, **dylai fod gan Awdurdodau Lleol swyddog cyswllt dynodedig** ar gyfer cynnal cyswllt â Chynghorau Cymuned a Thref yn y rhanbarth. Mae'n bwysig i Gynghorau Cymuned a Thref fod â mynediad at y bobl gywir i siarad gyda hwy.

Yn Wrecsam, trefnwyd Fforwm i ddod â Chynghorau Cymuned a Thref a'r Cyngor Bwrdeistref Sirol at ei gilydd i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cytuno ar siarter ar y cyd â'i Gynghorau Cymuned a Thref ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Conwy wedi sefydlu pum Fforwm Ardal Leol ac mae'n treialu gwahanol fodelau ar gyfer gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref.

Thema 4: Cyngorau Cymuned a Thref – Sut y cânt eu dwyn i gyfrif


Argymhelliad Allweddol:

Dylai Cyngorau Cymuned a Thref ddilyn cylch o ymgysylltu, cynllunio, cyflawni ac adrodd. Rydym yn argymhell y dylai'r holl Gyngorau Cymuned a Thref baratoi adroddiad blynyddol a hwnnw'n nodi eu cynnydd hyd yma a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'n bwysig bod Cyngorau Cymuned a Thref yn atebol am eu gweithredoedd – maent yn codi ac yn gwario arian cyhoeddus ac yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Mae atebolrwydd democrataidd yn un o brif nodweddion eu rôl a dylid cryfhau hyn.

Yn y pen draw, caiff Cyngorau Cymuned a Thref eu dwyn i gyfrif gan eu cyhoedd a'r blwch pleidleisio. Ond nid yw pob aelod o Gyngor Cymuned a Thref yn cael ei ethol; mae nifer yn cael eu cyfethol. Mae hyn yn bwrw amheuaeth ar fandad democrataidd y cyngor.

Roedd diffyg amlwg o ymgeiswyr yn etholiadau 2017. Gwyddom o ddata Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 fod dros 64% o'r seddi yng Nghymru wedi'u hethol yn ddiwrthwynebiad. Mae'r map (eitem 5) yn dangos y diffyg etholiadau ledled Cymru. Roedd gan bob Awdurdod Lleol heblaw dau gyfradd is na 50% o ran y seddi lle cafwyd cystadleuaeth. Pen-y-bont ar Ogwr oedd â nifer isaf y seddi diwrthwynebiad, sef 28% yn unig. O'i gymharu, Caerdydd oedd â nifer uchaf y seddi diwrthwynebiad, sef 74%.



OGL

Rydym yn cydnabod bod heriau sylweddol o ran denu rhagor o ymgeiswyr. I gynorthwyo ymgeiswyr i sefyll mewn etholiad, rydym yn **argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi etholiadau bywiog ag ymgyrch genedlaethol** i annog pobl i gamu ymlaen i gynrychioli eu cymunedau. Rydym hefyd yn **argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o radbost ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref**, gan ganiatáu i lenyddiaeth etholiadau gael ei hanfon heb dâl postio at etholwyr ac y dylai hyn fod ar ffurf un eitem o lenyddiaeth gan bob ymgeisydd at bob aelwyd.

Rydym wedi clywed bod rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn fwriadol yn osgoi cost cynnal etholiad drwy sicrhau bod ganddynt y nifer cywir o ymgeiswyr ar gyfer seddi sydd ar gael. **Rydym yn credu y dylid galw etholiadau, boed y seddi'n cael eu hymladd ai peidio.** Dylid ystyried goblygiadau ariannol hyn ar gyfer cyngorau.

Rydym yn cydnabod gwerth aelodau cyfetholedig. Gallant ddod ag ystod o safbwyntiau o'r tu mewn i'r gymuned na fyddent yn cael eu clywed fel arall o bosibl. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod aelodau'n atebol yn ddemocrataidd. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, **rydym yn argymhell na ellir cyfethol Cyngorwyr am fwy nag un tymor o'r bron.** Rydym yn credu y dylai un tymor fod yn ddigon i unigolion allu penderfynu a ydynt yn dymuno sefyll mewn etholiad ffurfiol.

Mae diffyg amrywiaeth ymhlith cyngorwyr Cymuned a Thref cyfredol, o ran oedran yn ogystal â rhywedd a chynrychiolaeth o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig^{xviii}, yn seiliedig ar Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Gwyddom fod dros hanner (55%) y cyngorwyr cymuned yn 60 oed neu hŷn. Gwyddom hefyd fod 1.2% o gynghorwyr cymuned yn bobl nad ydynt yn wyn a bod tua 65% o ymgeiswyr yn ddynion. Ar ben hynny, ymhlith cyngorwyr cymuned, roedd 15% yn ystyried bod ganddynt anabledd. Yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sydd wedi'i sefydlu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, mae angen dileu rhwystrau, gan gynnwys agweddau negyddol a rhwystrau corfforol sy'n atal pobl rhag cael eu cynnwys.

Ni all Cyngor Cymuned a Thref fod yn wirioneddol gynrychioliadol oni bai ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth ei gymuned. Yn ystod yr adolygiad, rydym wedi clywed yn anecdotaidd am Gynghorau Cymuned a Thref yn rhoi anogaeth frwd ar gyfer amrywiaeth ehangach yn eu cynghorau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi clywed am rwystrau i ymgysylltu â chynghorau, er enghraifft profiadau unigol lle mae rhai pobl wedi ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng amseroedd cyfarfodydd cynghorau cymuned ac ymrwymadau personol. Rydym yn credu **y dylid gwneud mwy i hybu amrywiaeth fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol** i annog pobl i gymryd rhan mewn etholiadau.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn nodi'r angen i ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys o blith pobl ifanc eu hunain. Fe wnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 hi'n bosibl i gynghorau ieuenctid benodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol. Gwyddom fod nifer o Gynghorau Cymuned a Thref yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardal a bod ganddynt gyngor ieuenctid; fodd bynnag, eto nid yw hyn yn digwydd ym mhob ardal.

Mae Barry Youth Action yn gwrando ar farn a syniadau pobl ifanc ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hystyried pan wneir penderfyniadau.

Er enghraifft, ym Mro Morgannwg, mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro'n cynorthwyo'r Cabinet Ieuenctid i gynrychioli llais pobl ifanc sy'n byw ym Mro Morgannwg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried gostwng yr oedran pleidleisio'n genedlaethol. Rydym yn argymhell, os yw'r oedran pleidleisio cenedlaethol yn cael ei ostwng, **y dylai'r oedran pan all unigolyn ddod yn Gyngorydd Cymuned a Thref gael ei ostwng i'r un oedran**. Waeth beth fydd yr oedran pleidleisio neu oedran cyngorwyr, bydd angen bob amser i wneud yn siŵr bod ymgysylltu â phobl ifanc yn rhan o waith y cyngor.

Mae diffyg amlygrwydd o ran gwaith Cyngorau Cymuned a Thref. Mae dirfawr angen codi ymwybyddiaeth o'u bodolaeth a'u gwaith yn eu cymunedau, yn ogystal ag angen ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau.

O'n gwaith ymgysylltu, gwyddom fod llawer o aelodau o'r cyhoedd heb brofi rhyw lawer o ymgysylltu gan eu Cyngor Cymuned neu Dref. O Arolwg y Cyhoedd, gwyddom fod dros 52% (neu 238 o ymatebwyr allan o 453) wedi cadarnhau bod eu cyngor heb ymgysylltu â hwy. Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent i'w cyngor ymgysylltu â'r gymuned, roedd nifer o ymatebion yn awgrymu cynnal cymorthfeydd cyngorwyr, digwyddiadau cyhoeddus penodol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Hefyd, mae ein harolwg ieuenctid wedi datgelu bod bron i 52% o ymatebwyr sy'n bobl ifanc heb brofi unrhyw ymgysylltu gan eu Cyngor Cymuned neu Dref. Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent weld eu cyngor yn cynnwys aelodau iau, awgrymodd ymatebwyr ifanc y gallai ymgysylltu drwy ddigwyddiadau lleol, targedu ymgysylltiad at gynrychiolydd ieuenctid neu ymgysylltu ag ysgolion lleol.

Dylai'r holl Gyngorau Cymuned a Thref roi cyhoeddusrwydd i'w gwaith ac ymgysylltu â'u cymunedau yn ei gylch – mae ymgysylltu'n swyddogaeth allweddol ac yn nodwedd allweddol ar eu rôl. Ceir enghreifftiau da lle mae'r gymuned wedi cael ei chynnwys mewn proses benderfynu (drwy adroddiadau blynyddol, cylchlythyrau, cyfarfodydd tref ac yn y blaen), ond ceir meysydd lle mae hyn yn ddiffygiol a lle mae angen gwneud mwy.

Mae llawer o Gyngorau Cymuned a Thref yn ymgysylltu â'u cymuned drwy gylchlythyrau, adroddiadau blynyddol, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau.

Dylai Gyngorau Cymuned fod yn nodi beth maent yn bwriadu ei wneud dros y flwyddyn sydd i ddod fel rhan o'u penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Rydym yn credu **y dylai Gyngorau Cymuned a Thref ddilyn cylch o ymgysylltu, cynllunio, cyflawni ac adrodd**.

Rydym yn argymhell y dylai'r holl Gyngorau Cymuned a Thref ddarparu taflen wybodaeth gyda'u hysbysiad ynghylch y praesept, yn nodi beth yw eu cynlluniau am y flwyddyn. Ar ben hynny, **dylai fod dyletswydd ar yr holl Gyngorau Cymuned a Thref i adrodd yn flynyddol** gan egluro'r hyn y maent wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn y maent yn bwriadu gwario praesept y flwyddyn nesaf arno.

Hoffem weld cynghorwyr yn ogystal â chynghorau'n cael eu dwyn i gyfrif, er enghraifft drwy ddarparu adroddiadau cryno ar gyfer eu hetholwyr ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Fel lleiafswm, dylai fod yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi cofnod presenoldeb eu cynghorwyr yn yr un ffordd ag y maent yn cyhoeddi eu cofnod o gydnabyddiaeth ariannol.

Gwyddom nad oes gofyniad yng Nghymru i gynnal Cyfarfod Cyngor Cymuned neu Dref Blynyddol – yn wahanol i Loegr. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Cynghorau Cymuned a Thref i wahodd y cyhoeddi gymryd rhan ac mae gan rai amser a neilltuir yng nghyfarfodydd cynghorau pan all aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn neu ofyn cwestiynau. Nid yw'n hysbys faint o Gynghorau Cymuned neu Dref yng Nghymru sy'n cynnal cyfarfodydd yn benodol ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Wrth ystyried y dystiolaeth ymgysylltu a gawsom, ymddengys fod nifer fach o Gynghorau Cymuned neu Dref yn ymgysylltu â'u cymunedau drwy gyfarfodydd cyhoeddus achlysurol. **Rydym yn credu y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r holl Gynghorau Cymuned a Thref gynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus (tref / cymuned) y flwyddyn.**

Yn olaf, dylai Cynghorau Cymuned a Thref geisio cynnwys eu cymuned yn barhaus. **Rydym yn argymhell bod Cynghorau Cymuned a Thref yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol fel dull o gyflawni hyn.**

Mae angen sefydlu strwythurau llywodraethu priodol i ddwyn Cynghorau Cymuned a Thref i gyfrif. Mae'n bwysig bod Cynghorau Cymuned a Thref yn atebol am yr arian cyhoeddus y maent yn ei wario a bod hwn yn cael ei reoli'n dda.

Rydym yn credu bod y gyfundrefn archwilio a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gymesur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Er gwaethaf hyn, mae nifer o Gynghorau Cymuned a Thref yn methu eu harchwiliad ar sail mater sylfaenol bob blwyddyn.

Yn adroddiad diweddaraf Archwilydd Cyffredinol Cymru^{xii}, mae'n amlwg bod dros 80 o gynghorau wedi methu â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig. Ar ben hynny, methodd 21 o gynghorau â chyflwyno'u cyfrifon blynyddol i'w harchwilio cyn 30 Tachwedd 2017, ddeufis ar ôl y dyddiad pan oedd yn ofynnol i'r cynghorau gyhoeddi cyfrifon archwiliedig a phum mis ar ôl y dyddiad pan oedd yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y cynghorau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi hefyd bod cynghorau'n aml yn cyflwyno datganiadau blynyddol sy'n anghyflawn neu'n cynnwys gwallau syml. Gwnaeth cyfanswm o 86 o gynghorau wallau syml wrth gwblhau eu datganiadau cyfrifyddu. Er bod hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r 175 o gynghorau a wnaeth wallau syml yn 2015-16, fe wnaeth 30 o gynghorau yr un gwallau syml yng nghyfrifon y ddwy flynedd.

Mae cyngor a chymorth ar gael gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond rydym yn credu bod angen mwy o gymorth. **Rydym yn argymhell bod mwy o gymorth yn cael ei roi i Gynghorau Cymuned a Thref llai er mwyn eu helpu i ateb gofynion archwilio.**

Ceir tystiolaeth nad yw rhai cynghorwyr yn ymddwyn yn y modd y byddid yn dymuno iddynt wneud, nac yn ymddwyn yn briodol tuag at staff.

Fe gomisiynodd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ymchwil^{xiv} i faterion sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu cynghorau, y Cod Ymddygiad a threfniadau safonau dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae'r ymchwil, sy'n ymdrin â Chymru a Lloegr, yn nodi nad oes gan y rhan fwyaf o gynghorau broblemau gydag ymddygiad aelodau; fodd bynnag, mae gan leiafrif sylweddol (rhyw 15%) broblemau difrifol. Mae'r rhan fwyaf o glercod yn anfodlon ar ganlyniad cwynion a'r ffordd yr ymdriniwyd â hwy, gyda lleiafrif yn dweud nad ydynt hwy (na'u cynghorwyr, mewn rhai achosion) yn gweld unrhyw ddiben mwyach i gyfleu cwyn. Ceir teimlad sylweddol bod y fframwaith deddfwriaethol cyfredol yn golygu bod rhai unigolion bellach yn credu eu bod yn 'anghyffyrddadwy' ac yn cael rhwydd hynt i darfu a bod problemau felly'n parhau am yn hwy heb gael datrysiad.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau bod llawer o gynghorau'n methu â darparu tystiolaeth eu bod wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ac yn un y byddem yn disgwyl i'r holl gynghorau ei fodloni.

Yn 2017-18, cafodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus^{xix} 167 o gwynion am y Cod Ymddygiad oedd yn ymwneud â Chynghorau Cymuned a Thref. Mae hyn yn gynnydd o 33% ers 2016-17. Er bod yr Ombwdsmon yn egluro ei bod yn anodd dweud pam yn union y bu cynnydd, mae'n credu bod llawer o gwynion wedi codi yn dilyn newidiadau yn aelodaeth cynghorau ac anawsterau rhwng aelodau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac aelodau newydd.

Rydym yn credu bod y broses bresennol ar gyfer cwynion o dan y cod ymddygiad yn ddigonol, ond y dylai fod digon o adnoddau ar gael i sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hyn heb oedi. Fodd bynnag, rydym wedi clywed bod achosion weithiau lle nad yw'r cyfrifoldeb am gwynion wastad yn eglur. Dylai fod gwybodaeth ar gael yn rhwydd sy'n egluro'r gweithdrefnau hyn yn well. Ar ben hynny, rydym yn gobeithio y bydd cynghorwyr yn cydymffurfio'n well â'r Cod Ymddygiad o ganlyniad i'r hyfforddiant gorfodol a grybwyllwyd mewn argymhelliad cynharach.

Er mwyn gwarchod cynghorwyr eraill a staff, ac er mwyn iddo fod yn gydnaws â rhedeg y cyngor, rydym yn argymhell bod ymddygiad presennol yn cael ei ystyried fel ffactor mewn 'Cymhwyster ar gyfer y Swydd', yn arbennig gorchmynion cyfreithiol presennol neu ddedfrydau sy'n ymwneud ag ymddygiad annerbyniol.

Mae diffyg pwerau i roi cymorth ffurfiol i Gyngor Tref neu Gymuned ac, fel dewis olaf, i ymyrryd ynddo os yw'n profi methiannau mewn gwasanaethau neu fethiannau corfforaethol. Mae hyn yn dod yn fwy arwyddocaol yn enwedig os ydynt yn mynd i gyflawni mwy o rôl darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd fel a ragwelir ar eu cyfer.

Rydym yn credu, os yw Cyngorau Cymuned a Thref yn mynd i gyflawni'r rôl yr ydym ni'n ei rhagweld ar eu cyfer, y dylai fod rhywfaint o fesurau diogelu.

Rydym yn argymhell y dylai'r pwyslais fod ar gymorth, gydag ymyrryd yn digwydd dim ond fel dewis olaf, ac y dylai fod yn gymesur â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Cymuned a Thref. Fodd bynnag, dylai'r cyfrifoldeb hwn berthyn i Lywodraeth Cymru gan nad yw Cyngorau Cymuned a Thref yn eilradd i Awdurdodau Lleol.

Crynodeb o'r Argymhellion

Ceir crynodeb o'n hargymhellion isod. Fel y gwelir ym mhrif gorff yr adroddiad, rydym wedi amlygu ein hargymhelliad allweddol ym mhob thema. Caiff argymhellion eraill eu nodi o fewn y testun mewn print trwm.

Cynghorau Cymuned a Thref – Beth ydynt

- **Gwnaethpwyd yr achos o blaid cadw Cynghorau Cymuned a Thref ar y sail eu bod yn lleol iawn, yn atebol yn ddemocrataidd ac yn gallu codi adnoddau. Dylai pob ardal gael ei chefnogi gan Gyngor Cymuned a Thref a dylid sefydlu rhai ym mhob ardal sydd heb un ar hyn o bryd.**
- Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i annog, hyrwyddo a chynorthwyo cymunedau lleol sydd heb Gynghorau Cymuned neu Dref ar hyn o bryd i'w sefydlu.
- Rydym yn credu y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau Cynghorau Cymuned a Thref yn ddiymdroi. Wedyn dylid adolygu'r ffiniau hyn yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn dal i wneud synnwyr wrth i ardaloedd (ac anghenion) newid a datblygu.
- Rydym yn credu y dylai pob cyngor gyflawni'r un rôl o ddarparu yn seiliedig ar leoedd yr ydym yn ei nodi mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, ond y dylent gael y cyfle i gyflawni'r rôl honno'n wahanol.

Cynghorau Cymuned a Thref – Yr hyn y maent yn ei wneud

- **Rydym yn disgwyl i wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd ddod yn gyfrifoldeb i Gynghorau Cymuned a Thref.** Rydym yn cydnabod y bydd angen cyfnod pontio; serch hynny, rydym yn credu y dylai'r broses hon ddechrau cyn gynted â phosibl.
- Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl glir i wella llesiant pobl yn eu hardaloedd ac ni ddylid eu hatal rhag gwneud unrhyw beth y mae ar eu cymuned ei angen yn eu tyb hwy.
- Rydym yn galw ar yr holl Gynghorau Cymuned a Thref i fod yn gweithio tuag at fodloni'r meini prawf i allu arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac yn meddwl ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt gyflawni hyn o fewn y tair blynedd nesaf.
- Rydym yn argymhell y dylid archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno dyletswydd benodol ar Gynghorau Cymuned a Thref i gynrychioli eu cymuned fel bod grym ffurfiol i lais y cynghorau, yn amodol ar unrhyw brotocolau perthnasol.
- Dylid ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref weithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum ffordd o weithio).

- Rydym yn argymhell y dylai Cyngorau Cymuned a Thref – neu gynrychiolydd ar eu rhan – ddod yn gyfranogwr gwadd statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Rydym yn argymhell gosod dyletswydd ar Gyngorau Cymuned a Thref i ymgysylltu ac y dylent gael eu cynorthwyo i wneud hyn yn briodol.

Cyngorau Cymuned a Thref – Sut y maent yn ei wneud

- Nid ydym yn credu y dylem ragnodi sut y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn dewis ymgymryd â'r rôl o ddarparu yn seiliedig ar leoedd yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer. Dylent fod â'r hyblygrwydd i benderfynu pa fodel darparu sy'n gweithio orau iddynt hwy.
- Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y byddai rhwydwaith o glercod yng Nghymru yn gweithio.
- **Rydym yn argymhell y dylai pob clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol neu fod yn gweithio tuag at hynny ac y dylai CILCA fod yn gymhwyster disgwylidig fel lleiafswm.**
- Rydym yn argymhell y dylai clercod gael eu penodi o restr genedlaethol gymeradwy.
- Rydym yn credu bod angen i gyngor a chymorth arbenigol gael eu darparu ar sail genedlaethol, i sicrhau bod y cyngor yn gyson, yn gywir ac yn effeithlon.
- Dylai Cyngorau Cymuned a Thref gael eu gwneud yn ymwybodol o ffynonellau cyllido eraill a bod â mwy o fynediad atynt. Hefyd, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir trosglwyddo'r cyllid a'r incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt.
- **Dylai pecyn craidd gorfodol o hyfforddiant i bob cynghorydd fod yn un o'r gofynion pan dderbynnir y swydd a bod yr hyfforddiant gorfodol hwn yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd (bob tymor etholiad).**
- Rydym yn argymhell peidio â chael aelodau deuol, waeth pa fath o gyngor ydyw ac y dylai Cyngorwyr Sir fynychu cyfarfodydd Cyngorau Cymuned a Thref yn eu ward yn rheolaidd (yn rhinwedd eu swydd) i sicrhau ymgysylltu.
- Rydym yn argymhell y dylai Cyngorau Cymuned a Thref ystyried rhannu swyddogaethau cefn swyddfa.
- Rydym yn argymhell bod Cyngorau Cymuned a Thref yn archwilio dulliau digidol er mwyn hwyluso'r ffyrdd o gynnal cyfarfodydd, o ymgysylltu ac o rannu gwybodaeth.

- Rydym yn argymhell y dylai fod gan yr holl Awdurdodau Lleol fforymau partneriaeth rheolaidd gyda Chynghorau Cymuned a Thref ac y dylai fod gan Awdurdodau Lleol swyddog cyswllt dynodedig ar gyfer cynnal cyswllt â Chynghorau Cymuned a Thref yn y rhanbarth.

Cynghorau Cymuned a Thref – Sut y cânt eu dwyn i gyfrif

- Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi etholiadau bywiog ag ymgyrch genedlaethol i annog pobl i gamu ymlaen i gynrychioli eu cymunedau. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio rhabdost ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.
- Rydym yn credu y dylid galw etholiadau ni waeth pa un a yw seddi'n cael eu hymladd ai peidio.
- Rydym yn argymhell na ellir cyfethol Cynghorwyr am fwy nag un tymor o'r bron.
- Rydym yn credu y dylid gwneud mwy i hybu amrywiaeth fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol.
- Rydym yn argymhell os yw'r oedran pleidleisio cenedlaethol yn cael ei ostwng i 16, y dylai'r oedran pan allwch ddod yn Gynghorydd Cymuned a Thref gael ei ostwng i'r un oedran.
- **Dylai Cynghorau Cymuned a Thref ddilyn cylch o ymgysylltu, cynllunio, cyflawni ac adrodd.**
- Rydym yn argymhell y dylai'r holl Gynghorau Cymuned a Thref ddarparu taflen wybodaeth gyda'u hysbysiad ynghylch y praesept.
- Dylai fod dyletswydd ar yr holl Gynghorau Cymuned a Thref i adrodd yn flynyddol.
- Rydym yn credu y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r holl Gynghorau Cymuned a Thref gynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus (tref / cymuned) y flwyddyn.
- Rydym yn argymhell bod Cynghorau Cymuned a Thref yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull allweddol o gynnwys eu cymuned yn barhaus.
- Rydym yn credu bod y gyfundrefn archwilio a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gymesur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.
- Rydym yn argymhell bod mwy o gymorth yn cael ei roi i Gynghorau Cymuned a Thref llai er mwyn eu helpu i ateb gofynion archwilio.
- Rydym yn credu bod y broses bresennol ar gyfer cwynion o dan y cod ymddygiad yn ddigonol, ond y dylai fod digon o adnoddau ar gael i sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hyn heb oedi.

- Er mwyn gwarchod cynghorwyr eraill, a staff ac er mwyn iddo fod yn gydnaws â rhedeg y cyngor, rydym yn argymhell bod ymddygiad presennol yn cael ei ystyried fel ffactor mewn 'Cymhwyster ar gyfer y Swydd'.
- Rydym yn credu, os yw Cyngorau Cymuned a Thref yn mynd i gyflawni'r rôl yr ydym ni'n ei rhagweld ar eu cyfer, y dylai fod rhywfaint o fesurau diogelu.

Cyfeiriadau:

- i [A complex system aims to bring French local government closer to the people](#) - City Mayors GOVERNMENT 09, Nick Swift a Guy Kervella – Mehefin 2003
- ii [The participation of citizens in German local government](#) - City Mayors GOVERNMENT 09, Jens Tessmann, Prifysgol Potsdam ac Irmelind Kirchner, Canolfan Llywodraeth Leol Japan Llundain – Medi 2011
- iii [Local Government in the Netherlands](#) –VNG Association of Netherlands Municipalities – 2008
- iv [Local US Governments a Mayors play the central role in US municipal government](#) – National League of Cities & City Mayors GOVERNMENT 09, Nick Swift – 2003
- v [The Danish Local Government System](#) - Local Government Denmark, Chwe 2009
- vi [The Structure of Local Government across the UK: Differences and Similarities](#) - SRUC's Rural Policy Centre, Ion 2015
- vii Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Adolygiad Annibynnol o Gynghorau Cymuned a Thref – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Tach 2017
- viii [Canllaw i Brif Gynghorau ar Arolygon Cymunedol](#) – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Chwefror 2018
- ix Adolygiad o Gynghorau Cymuned a Thref – Tystiolaeth gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Ion 2018
- x [Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Grwpio Taliadau Gorfodol i Gynghorwyr](#) 2017/18
- xi Cytundeb Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol - 2004
- xii [Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17](#) – Archwilydd Cyffredinol Cymru
- xiii [Rheoli a Darparu Gwasanaethau ac Asedau mewn Cynghorau Cymuned a Thref: Ymchwil gyda'r sector](#) – Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth Ionawr 2018
- xiv A Report for the Society of Local Council Clerks on the Result of a Survey on Standards Issues – Hoey Ainscough Associates Ltd Ionawr 2018
- xv [Y Cod Ymddygiad i aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru](#) – Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Awst 2016
- xvi [7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#) – Mai 1995
- xvii Adolygiad Annibynnol o Rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y Dyfodol – Ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mehefin 2018
- xviii [Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017](#) – Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth Mai 2018
- xix Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: [Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2017-18](#)